# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 a 2**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Mehefin 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

## Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09:00 - 09:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:15 - 09:30)

**2.1 Llythyrau mewn perthynas â chaffael trenau Trafnidiaeth Cymru**

(Tudalennau 1 - 8)

**2.2 Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd mewn perthynas â'r adroddiad: Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Comisiwn y Senedd**

(Tudalennau 9 - 18)

**2.3 Llythyrau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau canser Felindre**

(Tudalennau 19 - 29)

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar weithredu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd: Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol - y stori hyd yn hyn**

(Tudalen 30)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg mewn ymateb i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru**

(Tudalennau 31 – 35)

## 3 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn dystiolaeth gyda Maes Awyr Caerdydd a Llywodraeth Cymru

(09:30 – 10:25) (Tudalennau 36 – 85)

Swyddogion Maes Awyr Caerdydd:

- Wayne Harvey – Cadeirydd, Maes Awyr Caerdydd
- Spencer Birns – Prif Swyddog Gweithredol, Maes Awyr Caerdydd
- Jonathan Stott – Cyfarwyddwr Cyllid, Maes Awyr Caerdydd

Llywodraeth Cymru:

- Tracey Burke – Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
- Peter McDonald – Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd
- Jonathan Moody – Pennaeth Hedfan

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(10:25)

Gweddill y cyfarfod.

## 5 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn breifat gyda Maes Awyr Caerdydd a Llywodraeth Cymru

(10:25 – 11:20)

## (Egwyl)

(11:20 – 11:30)

## 6 Maes Awyr Caerdydd: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

(11:30 – 11:45)

## 7 Papur preifat i'w nodi

(11:45 - 11:50)

### 7.1 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21

(Tudalen 86)

## 8 Adroddiad ddrafft - Adolygiad o Gomisiynwyr

(11:50 - 12:05) (Tudalennau 87 - 116)

## 9 Senedd y DU: Ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol

(12:05 - 12:15) (Tudalen 117)

## 10 Blaenraglen waith: Hydref 2023

(12:15 - 12:30) (Tudalennau 118 - 136)

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

James Price – Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru

19 Ebrill 2023

Gwaith Trafnidiaeth Cymru i gaffael cerbydau rheilffyrdd

Annwyl James,

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cael gohebiaeth sy'n trafod y gwaith o gaffael/cyflenwi pum trên batri/disel hybrid 'Dosbarth 230', fel y deallwn, gan VivaRail, ac yn sgil penodi gweinyddwyr i'r cwmni. Mae'r ohebiaeth yn codi pryderon am effaith bosibl y datblygiadau hyn ar y cynlluniau ar gyfer rhoi'r trenau hyn ar waith, a'r oedi a gafwyd hyd yma. Er mwyn helpu â'n gwaith cychwynnol wrth i ni ystyried y materion a godwyd yn yr ohebiaeth, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion am y trefniadau. Yn fwy penodol:

- cadarnhad o nifer/manyleb y trenau a archebwyd ac a yw'r rhain wedi'u cyflenwi'n llawn (os na, cadarnhad o'r hyn sy'n weddill);
- a yw'r trenau wedi eu prynu'n llwyr neu'n cael eu prydlesu, a'r rhesymau am hynny y naill ffordd neu'r llall, a phryd ymrwymwyd i'r trefniadau cytundebol;
- pryd oedd Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl yn wreiddiol y byddai'r trenau'n cael eu rhoi ar waith ac ar ba lwybrau, ynghyd ag unrhyw newid i'r safbwynt hwnnw y naill ffordd neu'r llall (yng nghyd-destun patrymau o ran galw yn dilyn y pandemig);
- rhesymau pam nad yw'r trenau eisoes ar waith a'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer eu gwasanaethu/eu cynnal;
- cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut mae'r costau hyn wedi eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill y naill ffordd neu'r llall;
- asesiad Trafnidiaeth Cymru o effaith y ffaith bod VivaRail bellach yn nwylo'r gweinyddwyr neu ffactorau eraill ar y cynlluniau i gyflwyno'r trenau hyn a'r trefniadau cynnal a chadw parhaus.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ymateb erbyn 19 Mai 2023 os yw hynny'n bosibl. Os bydd unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif, yn eich barn chi, ond y gellid ei rhannu â'r Pwyllgor yn gyfrinachol, yna gofynnaf i chi drafod ymhellach â'r tîm clercio ynglŷn â sut y dylid ymdrin â'ch ymateb.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Copi at:

Tracey Burke – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Peter McDonald – Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

18 Mai 2023

Annwyl Mark

**Caffael Cerbydau gan Trafnidiaeth Cymru**

Diolch am eich llythyr ynghylch caffael Trafnidiaeth Cymru (TrC) o'i drenau Class 230 i wasanaethu ar hyd rheilffordd Wrecsam-Bidston. Croesawaf y cyfle hwn i rannu rhagor o fanylion am y broses gaffael a'r sefyllfa fel y mae ar ôl i Vivarail fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod TrC wedi cynnal diwydrwydd dyladwy ac yn gweithio'n galed i gyflwyno'r trenau newydd hyn.

Gweler y manylion pellach y gofynnir amdanynt isod:

1. **Cadarnhad o nifer/manyleb y trenau a archebwyd ac a yw'r rhain wedi'u cyflenwi'n llawn (os nad, beth sy'n weddill).**

Yn 2018 fel rhan o'r dyfarniad contract gwreiddiol, archebwyd pum uned Class 230 3 cherbyd gan Vivarail dan yr ymrwymiad i wella gwasanaethau ar lwybr Wrecsam-Bidston. Cafodd y trenau eu nodi gan KeolisAmey[1] drwy broses ymgeisio masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, lle cawsant eu contractio wedyn drwy ddyfarnu'r cytundeb grant dilynol.

Mae'r Class 230 yn drên tri cherbyd. Newidiodd Vivarail y trenau hyn o drên 'District Line' Danddaearol Llundain i drên dau-fodd/hybrid prif lwybr sy'n defnyddio batris ac injan disel. Mae'r pum uned Class 230 3 cherbyd wedi'u cyflenwi, ac mae manylion amdanynt yn ymuno â'r gwasanaeth wedi'u cynnwys yn y cwestiwn.

[1] Roedd Keolis Amey Operations a oedd yn masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC) yn gwmni trenau yng Nghymru dan berchnogaeth Keolis (60%) ac Amey (40%) ac yn gweithredu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2021.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

2. **A yw'r trenau wedi cael eu prynu'n llwyr neu'n cael eu prydlesu, y sail resymegol ategol yn y naill achos neu'r llall, a phryd y gwnaed y trefniadau contract.**

   Prynodd Llywodraeth Cymru y trenau'n llwyr ac maent yn eiddo i TrC (mae TrC yn eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru). Cytunwyd ar y pryniant llwyr gan Lywodraeth Cymru adeg archebu, gan y byddai hyn wedi bod yn rhatach dros amser na Keolis Amey yn negodi cyllid trydydd parti a lesio'n ôl wedyn, gan nodi nad oedd Vivarail yn gallu cynnig trefniant les, dim ond gwerthu'r unedau'n llwyr. Ni fu unrhyw newidiadau dilynol i'r trefniant hwn, ac fel y byddech yn ei ddisgwyl o brosiect o'r natur hon, cynhaliwyd adolygiadau cyfnodol. Cafodd taliadau eu gwneud fesul uned drwy gydol 2020 a 2021 ar ôl i bob uned basio archwiliad ansawdd TrC a'r drefn brofi ofynnol.

3. **Pryd oedd Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl yn wreiddiol y byddai'r trenau'n dod i rym ac ar ba lwybrau, ynghyd ag unrhyw sefyllfa sydd wedi'i diweddaru mewn perthynas â hynny (yng nghyd-destun patrymau galw ar ôl y pandemig).**

   Roedd y contract gwreiddiol yn nodi y byddai trenau Class 230 yn dechrau cael eu defnyddio yn 2019. O'r fflyd o bump, mae tri thrên wedi cael eu clirio ar gyfer hyfforddiant profi a hyfforddi gyrwyr, ac maent bellach ar gael i'w defnyddio, ac yn cael eu defnyddio i gludo teithwyr. Bydd y pedwerydd trên ar gael ar gyfer gwasanaeth i deithwyr ddechrau haf 2023, a disgwylir i'r pumed trên a'r olaf ymuno â'r gwasanaeth yn nes ymlaen yn yr haf / ddechrau'r hydref 2023.

   Rydym yn disgwyl gweithredu gwasanaeth bob awr i'r ddau gyfeiriad rhwng Wrecsam a Bidston gan ddefnyddio trenau Class 230 yr haf hwn. Rhaid gweithredu un trên yr awr dibynadwy gan ddefnyddio'r trenau Class 230 yn llwyddiannus cyn i ni symud i gynyddu'r amlder hwn i ddau drên yr awr.

   Cafodd yr unedau eu caffael yn benodol ar gyfer llwybr Wrecsam-Bidston fel fflyd hunangynhwysol gyda'r opsiwn o weithredu ar ychydig o lwybrau eraill dros dro tra oedd fflyd newydd yn cael ei darparu. Ni wireddwyd yr opsiwn hwn, ac o ganlyniad, dim ond ar lwybr Wrecsam-Bidston y mae gwaith seilwaith i ganiatáu gweithredu Class 230 wedi cael ei wneud.

4. **Rhesymau pam nad yw'r trenau wedi dechrau gweithredu'n barod a chynlluniau gwreiddiol ar gyfer sut byddent yn cael eu gwasanaethu/cynnal a chadw.**

   Dyma'r rhesymau dros yr oedi cyn cyflwyno'r trenau Class 230 i'r gwasanaeth:

   - Roedd amserlenni rhaglenni ymroddedig Vivarail yn afrealistig. Derbyniodd Vivarail y rhan fwyaf o'r bai am yr oedi, a chytunwyd ar iawndal penodedig sylweddol o £1.5 miliwn a'i dalu;

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

- oedi o ran cynhyrchu yn Vivarail oherwydd dechrau pandemig y coronafeirws (sef oedi wrth gael gafael ar ddeunyddiau) – roedd y rhain yn cael eu derbyn fel oedi a ganiateir;
- roedd cyfyngiadau'r coronafeirws a gofynion cadw pellter cymdeithasol hefyd yn arwain at oedi wrth hyfforddi gyrwyr yng ngoleuni'r angen i ffurfio 'swigod' criwiau trenau;
- dibynadwyedd cychwynnol gwael wedi oedi 'gweithredu di-wall' a derbyn yr unedau gan TrC. Arweiniodd hyn hefyd at ganslo hyfforddiant i yrwyr o bryd i'w gilydd;
- materion ansawdd yr oedd angen eu datrys cyn y gallai TrC dderbyn yr unedau, fel dau ddigwyddiad thermol ar wahân rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ebrill 2022 a olygai bod gwaith ar y fflyd yn cael ei ohirio tra bod y problemau yn cael eu deall a bod mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith. Dilynwyd hyn gan ddarn sylweddol o waith i ail-fapio'r meddalwedd rheoli injans, y batri a chywiro gwifrau;
- roedd gohirio'r gwaith ar y fflyd ddwy waith wedi golygu gohirio hyfforddiant gyrwyr, ond hefyd wedi golygu bod rhai gyrwyr wedi colli cymhwysedd a bod angen hyfforddiant gloywi ychwanegol arnynt;
- Pan aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr ddiwedd 2022, bu oedi pellach tra sefydlodd TrC dîm cynnal a chadw mewnol.

Y cynlluniau gwreiddiol ar ôl prynu'r trenau oedd i Vivarail wneud gwaith cynnal a chadw ar y fflyd, er na chafodd cytundeb cynnal a chadw ei lofnodi erioed. Yn ystod y gwaith cynhyrchu a'r profion cychwynnol, daeth yn amlwg bod angen mwy o waith cynnal a chadw ar y trenau nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac na allai Vivaail fwrw ymlaen â'u prisiau arfaethedig. Roedd TrC yn trafod cytundeb cynnal a chadw diwygiedig gyda Vivarail ar yr adeg yr aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, cytunodd TrC i ddefnyddio depo Gogledd Birkenhead fel canolfan cynnal a chadw ar gyfer fflyd Class 230 ac roedd wedi contractio technegwyr Vivarail i gefnogi hyfforddiant gyrwyr ar sail ad-hoc. Ategwyd hyn gan dîm dan gontract TrC a oedd yn helpu technegwyr Vivarail yng Ngogledd Birkenhead.

Pan aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr, cafodd tîm cynnal a chadw TrC (gyda recriwtiaid ychwanegol yn ymuno, gan gynnwys rhai cyn dechnegwyr Vivarail) eu cymeradwyo fel tîm cynnal y fflyd, gan ganiatáu i hyfforddiant gyrwyr ailddechrau cyn y gwasanaeth i deithwyr ym mis Ebrill 2023. Rydyn ni'n bwriadu parhau â'r tîm hwn dros y misoedd nesaf wrth i ni benderfynu ar yr opsiwn cynnal a chadw tymor hir gorau ar gyfer fflyd Class 230.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

5. **Cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut mae'r costau hyn yn cael eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill yn y naill gyfeiriad neu'r llall.**

Mae cyfanswm y gwariant hyd yma yn £30.7m, mae hyn yn cynnwys £16.6m ar gyfer prynu'r unedau; mae £8.5m yn gostau cyfalaf er mwyn rhoi'r trenau ar waith; ac mae £5.7m yn gostau gweithredol. Mae dadansoddiad o'r costau hyn i'w weld isod.

Mae'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrynu unedau Class 230 a'u rhoi ar waith fel a ganlyn:

| Costau Capex | Gwariant hyd yma £k |
|---|---|
| Cost unedau | 16,575 |
| Cyfalaf dros ben | 2,482 |
| Amrywiaethau | 1,978 |
| Diweddaru depo | 950 |
| Costau eraill | 3,001 |
| | |
| Cyfanswm | 24,985 |

Y costau gweithredol cyn y gwasanaeth i deithwyr.

| Costau Opex | Gwariant hyd yma £k |
|---|---|
| Iawndal Penodedig a Dalwyd i TrC | (1,473) |
| Cynnal a chadw Vivarail | 2,496 |
| Hyfforddiant | 186 |
| Cynnal a chadw dan gontract TrC | 2,595 |
| Deunyddiau a Chynnal a Chadw Trwm | 29 |
| Mynediad depo (Birkenhead) | 1,365 |
| Diogelwch/glanhau/offer | 103 |
| Arall | 426 |
| | |
| Cyfanswm | 5,728 |

Nid oes unrhyw ddyledion heb eu talu yn y naill gyfeiriad na'r llall. Roedd y taliad y cytunwyd arno gyda gweinyddwr Vivarail, a oedd yn cynnwys mynediad at swm sylweddol dros ben, yn cynnwys talu'r anfonebau sy'n ddyledus i Vivarail ar gyfer technegwyr cynnal a chadw, yn ogystal â'r iawndal penodedig sy'n ddyledus gan Vivarail am yr oedi i'r rhaglen.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**6. Asesiad TrC o effaith gweinyddiad VivaRail neu ffactorau eraill ar gynlluniau ar gyfer cyflwyno'r trenau hyn i'r gwasanaeth a threfniadau cynnal a chadw parhaus.**

Pan aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr, roedd y Class 230 ddau i dri mis i ffwrdd o ymuno â'r gwasanaeth i deithwyr, yn amodol ar gytundeb cynnal a chadw boddhaol gyda Vivarail. Fodd bynnag, oherwydd cytundeb estynedig y drefn gynnal a chadw gyda Vivarail, roedd TrC eisoes wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau cadernid gweithrediad Class 230. Y rhain oedd:

a. cynhyrchu cyfarwyddiadau cynnal a chadw TrC ei hun, gan nad oedd cyfarwyddiadau Vivarail yn cael eu hystyried yn ddigonol;

b. datrys y ddau ddigwyddiad thermol, gan gynnwys profion helaeth ac archwiliadau technegol llawn o'r holl drenau Class 230 gan TrC;

c. cael gafael ar gyfalaf mawr dros ben i gefnogi gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol, ni waeth pwy fydd yn gwneud hyn;

d. sefydlu perthynas waith dda gyda staff technegol Vivarail ar lefel ymarferol, a hwylusodd y ffordd i TrC sicrhau cyn staff Vivarail yn gyflym pan aeth y busnes i ddwylo'r gweinyddwyr;

e. penodi tîm TrC yn nepo Gogledd Birkenhead i gefnogi tîm Vivarail, a sefydlu storfeydd rhannau oddi ar y safle a lleoliad cynnal a chadw cydrannau cyfagos;

f. Buddsoddi yn y cyfleusterau depo yn nepo Gogledd Birkenhead, gan gynnwys cyfleusterau tanwydd a gwagio tanciau toiledau. Mae defnyddio'r depo hwn hefyd yn golygu nad oes angen i drenau Class 230 deithio i Gaer mwyach ar gyfer cynnal a chadw a/neu wasanaethu, sy'n arbed costau ac adnoddau yn y pen draw.

Pan roddodd Vivarail y gorau i fasnachu, roedd y camau hyn yn ein galluogi i symud yn gyflym i benodi tîm cynnal a chadw 'mewnol' cyflawn, sicrhau darnau sbâr ac ailddechrau hyfforddi gyrwyr i sicrhau bod teithwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth ar 3 Ebrill 2023, tua phedwar mis yn unig ar ôl i Vivarail roi'r gorau i fasnachu.

Ar ben hynny, mae trenau Class 230 wedi bod yn gweithredu'n ddibynadwy ar y cyfan ac mae'n ymddangos bod y problemau technegol mawr wedi cael eu datrys. O ganlyniad, mae TrC nawr mewn sefyllfa i barhau i weithredu'r trenau Class 230 am y dyfodol agos, gan ddarparu llwybr Wrecsam-Bidston gyda gwasanaeth o safon well nag a fu'n bosibl o'r blaen. Mae perthynas gadarnhaol wedi'i sefydlu gyda First Group, a brynodd yr asedau Vivarail sy'n weddill, gan ein galluogi i gryfhau ein sefyllfa ymhellach a ran dal cydrannau sbâr.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Hyderaf y bydd cynnwys yr ymateb hwn yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth i'r pwyllgor, a chroesawaf unrhyw gwestiynau eraill sydd gennych. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Mark Isherwood
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Mai 2023

Annwyl Mark

Pan ysgrifennais atoch yn flaenorol ynghylch ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a wnaed yn yr Adroddiad ar Graffu ar Gyfrifon 2021-22, fe ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhelliad 5 pan fyddai ar gael, a nodi y byddwn yn ysgrifennu atoch mewn perthynas ag Argymhelliad 1 ar ôl diwedd y flwyddyn. Nodir y wybodaeth hon yn **Atodiad A**.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Copi i Gomisiynwyr y Senedd, Ed Williams

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

**Atodiad 1 - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Argymhelliad 1**

**Hoffai'r Pwyllgor glywed gan y Comisiwn yn flynyddol gyda dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn.**

Cytunodd y Comisiwn i amlinellu dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o gronfa brosiectau 2022-23 a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn, ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2022-23. Darperir y wybodaeth honno isod.

| Prosiect / Eitem | Cyllideb a Neilltuwyd £000 |
|---|---:|
| Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac Offer Ymgysylltu Ar-lein. | £66 |
| System Rheoli Prosiectau a Rhaglenni | £69 |
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth: Cerbyd heddlu newydd ac uwchraddio offer | £65 |
| Dychwelyd i'r ystâd ar ôl y pandemig – ailbaratoi desgiau yn Nhŷ Hywel | £37 |
| Gwaith i ailwampio toiledau'r Pierhead | £45 |
| Uwchraddio drws diogelwch y Senedd | £30 |
| Gwaith i addasu Bloc 1A Tŷ Hywel ar gyfer dychwelyd i'r ystâd | £70 |
| Prosiect i wella seiberddiogelwch | £154 |
| Rhaglen dreigl i adnewyddu drysau tân Tŷ Hywel (Cyfnod 5) | £80 |
| Rhaglen dreigl i uwchraddio goleuadau swyddfa LED i arbed ynni | £100 |
| Astudiaeth ddichonoldeb i ddisodli System Rheoli Adeilad y Senedd | £20 |
| Uwchraddio goleuadau LED Siambr y Senedd | £45 |
| Adnewyddu offer canfod mwg y Senedd | £20 |
| Trwsio system trin dŵr uwchfioled y Senedd | £50 |
| Cyngor proffesiynol ar opsiynau strategol y dyfodol ar gyfer ystâd y Senedd | £50 |
| Taliad costau byw i staff y Comisiwn | £97 |
| Amgodwyr Darlledu Newydd a System Ffrydio i'r Cyfryngau Cymdeithasol i barhau â'r ffrwd fyw o drafodion y Senedd | £62 |
| **Cyfanswm** | **£1,060** |

**Argymhelliad 5**

**Dylai'r Comisiwn rannu crynodeb o ganlyniadau pob arolwg pwls, pan fyddant ar gael, gyda'r Pwyllgor gan ganolbwyntio ar salwch meddwl, mynegeion salwch meddwl ac absenoldebau staff yn fwy cyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at adolygu canlyniadau'r arolwg staff blynyddol ar gyfer 2022**

Mae arolwg staff blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2022-23 wedi cael ei gynnal gan y Bwrdd Gweithredol. Yn fuan wedyn cynhaliwyd y diweddaraf o'r 'arolygon pwls' rheolaidd hefyd. Cynhwysir crynodeb o ganfyddiadau pob un isod.

# Arolwg Pobl Comisiwn y Senedd 2022-2023 Crynodeb o'r Canfyddiadau

## Trosolwg

Cynhaliwyd yr arolwg pobl Comisiwn y Senedd hwn ym mis Mawrth 2023. Gyda chyfradd ymateb o 71 y cant i'r arolwg, y sgôr cyffredinol oedd 75 y cant yn erbyn y Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle.

| Thema | Sgôr cyfartalog fel canran | Gwahaniaeth i'r arolwg blaenorol fel car |
|---|---|---|
| **Mynegai Ymgysylltu** | **75** | - |
| Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth | **74** | -2.9 |
| Rhannu Gwybodaeth | **73** | +0.4 |
| Galluogi | **74** | +0.3 |
| Llesiant | **72** | -0.2 |
| Ennyn Balchder | **78** | -1.1 |
| Boddhad Gwaith | **78** | +0.5 |
| Fy Rheolwr | **75** | -1.7 |
| Arweinyddiaeth a rheoli newid | **64** | +1.3 |
| Dysgu a Datblygu | **66** | +1.2 |
| Comisiwn y Senedd a'i Ddiwylliant | **79** | +1.6 |
| Fy Nhîm | **83** | +1 |

# Ciplun

| | | |
|---|---|---|
| | Sgôr Mynegai Ymgysylltu | 75% |

| Themâu y Mynegai Hapusrwydd yn y Gweithle | | Themâu Comisiwn y Senedd | |
|---|---|---|---|
| **74%** Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth (-3%) | **73%** Rhannu Gwybodaeth (0%) | **75%** Fy Rheolwr (+2%) | **64%** Arweinyddiaeth a Rheoli Newid (+1%) |
| **74%** Grymuso (0%) | **72%** Llesiant (0%) | **66%** Dysgu a Datblygu (+1%) | **79%** Diwylliant Sefydliadol (+1%) |
| **78%** Ennyn Balchder (-1%) | **78%** Boddhad Gwaith (0%) | **83%** Fy Nhîm (+1%) | |

# Y Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle

Mae'r Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle yn fframwaith sy'n cwmpasu'r chwe ysgogydd allweddol ar gyfer hapusrwydd a llesiant gweithwyr ac ymgysylltu â hwy: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth, Rhannu Gwybodaeth, Galluogi, Llesiant, Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith.

## Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle

| | | |
|---|---|---|
| Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth | 74% | Iawn! |
| Rhannu Gwybodaeth | 73% | Iawn! |
| Galluogi | 74% | Iawn! |
| Llesiant | 72% | Iawn! |
| Ennyn Balchder | 78% | Iawn! |
| Boddhad Gwaith | 78% | Iawn! |

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r canfyddiadau, fel gydag arolygon blaenorol, yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Mae nifer o feysydd yn dangos rhai gwelliannau bach yn erbyn yr arolwg diwethaf ym mis Medi e.e. ymwybyddiaeth ariannol, cysylltiad ar draws y Comisiwn, a gwelliant ymylol iawn mewn llwythi gwaith. Fodd bynnag, mae presenoliaeth (gweithio tra'n sâl) wedi cynyddu, ac mae straen sy'n gysylltiedig â gwaith yn parhau i fod yn destun pryder.

Mae'r arolwg hefyd yn gofyn cwestiynau ynghylch nodau cyffredinol y Strategaeth Llesiant, sef:

Diogelu, hyrwyddo a chefnogi gallu sefydliadol trwy gyflawni diwylliant ac amgylchedd yn y gweithle lle mae iechyd, diogelwch a llesiant yn cael eu hyrwyddo gan bawb, lle mae pobl yn gallu dod â'u holl hunan i'r gwaith, a lle mae staff yn cael eu galluogi a'u grymuso i wneud dewisiadau sy'n eu cefnogi i fyw'n dda a gweithio'n dda.

Mewn perthynas â hyn:

- Roedd **79 y cant** o'r ymatebwyr yn cytuno bod y sefydliad yn gwneud gwaith da o ran gwreiddio llesiant yn niwylliant y gweithle. Mae hyn wedi cynyddu 2 y cant ers yr arolwg diwethaf ym mis Medi 2022. Mae hyn yn cyd-fynd ag arolwg Pobl mis Mawrth 2023, a ganfu fod 79 y cant o ymatebwyr yn cytuno bod eu llesiant yn bwysig i'w cyflogwr
- Roedd **83%** o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gallu 'dod â'ch holl hunan i'r gwaith' - bod yn chi eich hun yn y gwaith heb i eraill eich barnu Mae hyn wedi cynyddu 2 y cant ers yr arolwg diwethaf ym mis Medi 2022. Mae hyn yn cyd-fynd ag Arolwg Pobl Mawrth 2023, lle'r oedd 79 y cant o gydweithwyr yn cytuno bod Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol, a bod Comisiwn y Senedd yn parchu gwahaniaethau unigol.
- Mae **bron dwy ran o dair (63 y cant)** o'r ymatebwyr yn cytuno bod uwch reolwyr y Comisiwn yn modelu ac yn annog llesiant yn y gwaith. Mae 22 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf a 15 y cant ddim yn gwybod. Dyma'r tro cyntaf i'r arolwg ofyn y cwestiwn hwn.

Dylid darllen yr adroddiad hwn hefyd ochr yn ochr â chanlyniadau Arolwg Pobl mis Mawrth 2023, a ganfu mai 'da' yw sgôr llesiant cyffredinol y Comisiwn o gymharu â chyfartaledd y diwydiant:

| | 2022 | Cyfartaledd diwydiant 2022 |
|---|---|---|
| Canran y gweithwyr sydd mewn perygl o fod â llesiant gwael | 21% | 40% |
| Mae fy nghyflogwr yn gofalu am fy llesiant | 79% | 68% |
| Anaml y byddaf yn teimlo'n bryderus neu'n isel am fy ngwaith | 63% | 57% |
| Rwy'n hapus â fy amgylchedd gwaith presennol | 75% | 72% |
| Rwy'n teimlo'n hapus yn y gwaith | 72% | 69 y cant |


## Canlyniadau cwestiynau craidd a chymharu arolygon blaenorol

| | Mai 2020 | Gorffennaf 2020 | Tachwedd 2020 | Mawrth 2021 | Gorffennaf 2021 | Hydref 2021 | Mawrth 2022 | Medi 2022 | Ebrill 2023 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y cyfraddau ymateb | 60% | 62.4 % | 70.6% | 71% | 64% | 67% | 67% | 68% | 63% | ↓ |
| **% cytuno neu gytuno'n gryf** | | | | | | | | | | |
| Roedd staff yn cytuno bod y sefydliad yn gwneud gwaith da o ran gwreiddio llesiant yn niwylliant y gweithle | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 77% | 79% | ↑ |
| **Iechyd corfforol** | | | | | | | | | | |
| Sgôr iechyd corfforol (1. Gwael iawn / 5 Ardderchog) | 3.65 | 3.49 | 3.49 | 3.55 | 3.44 | 3.36 | 3.37 | 3.52 | 3.45 | ↓ |
| Staff sydd wedi gweithio tra'n sâl dros y 12 mis diwethaf | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 43% | 43% | 51% | ↑ |
| **Iechyd meddwl** | | | | | | | | | | |
| Sgôr iechyd meddwl (1. Gwael iawn / 5 Ardderchog) | 3.41 | 3.4 | 3.3 | 3.21 | 3.33 | 3.26 | 3.24 | 3.36 | 3.32 | ↓ |
| Staff a ddioddefodd bryder / straen dros y 6 mis diwethaf a oedd yn ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â gwaith | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 47% | 46% | 43% | 45% | 41% | 40% | ↓ |
| Staff sy'n cytuno bod eu rheolwr llinell yn cyfathrebu'n dda ac maen nhw'n deall beth sy'n bwysig a beth i ganolbwyntio arno | 92% | 93% | 95% | 94% | 92% | 92% | 91% | 91% | 94% | ↑ |
| Staff sy'n teimlo bod y llwyth gwaith yn rhy uchel am yr oriau y gallen nhw weithio. | *Heb ei ofyn* | 21% | 20% | 17% | 18% | 22% | 23% | 19% | 18% | ↓ |
| Staff sy'n teimlo nad oes ganddynt ddigon o waith i lenwi eu horiau. | *Heb ei ofyn* | 5% | 4% | 3.5% | 5% | 4% | 4% | 4% | 4% | = |
| **Cysylltedd / llesiant cymdeithasol** | | | | | | | | | | |
| Staff sy'n cytuno bod eu llesiant o bwys i'w rheolwr llinell | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 96% | 98% | 95% | 96% | 97% | 96% | 96% | = |
| Staff sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth ac yn gysylltiedig â'u tîm. | 95% | 97% | 96% | 94% | 92% | 92% | 92% | 92% | 95% | ↑ |
| Mae staff yn cytuno eu bod yn teimlo mewn cysylltiad â gwasanaethau eraill | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 59% | 61% | 67% | 56% | 62% | 69 y cant | ↑ |
| **Llesiant ariannol** | | | | | | | | | | |
| Mae staff yn cytuno bod y Senedd yn darparu digon o gymorth a gwybodaeth am opsiynau a chymorth ariannol | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 74% | 73% | 76% | ↑ |
| **Gweithleoedd iach** | | | | | | | | | | |
| Staff sy'n cytuno eu bod yn gallu gweithio gartref yn effeithiol. | 85% | 87% | 83% | 89% | 93% | 95% | 95% | 95% | 98% | ↑ |
| Staff sy'n cytuno bod eu hamgylchedd gwaith yn iach ac yn ddiogel | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | *Heb ei ofyn* | 94% | 98% | ↑ |

| | | |
|---|---|---|
| Canlyniad cadarnhaol, nid oes angen rhoi sylw | Gallai fod angen rhoi sylw | Maes sy'n gofyn sylw ar unwaith |

Gan fod y Pwyllgor wedi gofyn yn benodol am wybodaeth sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl, yr adrannau canlynol yw canlyniadau'r Arolwg Pwls Llesiant ynghylch Iechyd Meddwl:


## Iechyd meddwl





**3.32/5**

Sgôr iechyd meddwl cyfartalog – mae hyn ychydig yn uwch na'r sgôr cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf


Mae **13 y cant o bobl** yn dweud bod ganddynt iechyd meddwl gwael/gwael iawn – mae hyn wedi gwella ers mis Medi 2022




Dros y 6 mis diwethaf, mae **57 y cant** o'r ymatebwyr wedi dioddef gorbryder neu straen (yn ymwneud â'r cartref neu'r gwaith), sydd wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant (**yr un lefel** ag ym mis Medi)

Mae **40 y cant** o'r gweithlu cyfan wedi dioddef straen cysylltiedig â gwaith dros y 6 mis diwethaf (dyma'r isaf ers i ni ddechrau gofyn y cwestiwn hwn ym mis Mawrth 2021, ac mae 4 y cant yn is na'r ymateb cyfartalog drwy gydol y cyfnod hwnnw). Mae hyn yn debyg i ffigurau arolwg Pobl mis Mawrth 2023, lle'r oedd 63 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod 'yn anaml yn teimlo'n bryderus am waith'




Canran yr amser y mae ymatebwyr yn ei dreulio mewn cyfarfodydd bob wythnos

Safbwyntiau ar lwyth gwaith:




**18%** - Rhy fawr

**78%** - Yn iawn

**4%** - Rhy fach

Ffactorau a nodwyd fel rhai sy'n achosi straen cysylltiedig â gwaith (mae'r canrannau'n ymwneud â nifer y staff sydd wedi dioddef straen cysylltiedig â gwaith sy'n nodi hyn fel ffactor)




Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A oes unrhyw ffordd y credwch y gallai'r Comisiwn gefnogi iechyd meddwl gweithwyr yn well?', cafwyd nifer sylweddol o ymatebion ac mae'r ymatebion llawn i'w gweld yn Atodiad 2. Mae crynodeb o'r ymatebion a grybwyllwyd fwyaf aml i'w weld isod:


- Rheoli llwyth gwaith yn well
- Mwy o staff / adnoddau i leihau pwysau llwyth gwaith
- Man hyfforddi / campfa / offer ar y safle
- Cyflogwch weithiwr iechyd meddwl ar gadw i gefnogi staff
- Caniatewch amser â thâl yn ystod y diwrnod gwaith ar gyfer gweithgareddau llesiant
- Cynyddwch gyflogau yn unol â chostau byw neu darparwch daliad arall
- Dylech ystyried a threialu wythnos waith 4 diwrnod
- Hyfforddiant llesiant gorfodol/gloywi ar gyfer rheolwyr llinell, gan gynnwys pynciau fel iechyd meddwl, niwrowahaniaeth a menopos
- Dewisiadau bwyd iachach yn y ffreutur
- Mynd ati mewn ffordd fwy ystwyth / cyflym i awdurdodi a phrosesu'r gwaith o reoli swyddi gwag / recriwtio iddynt
- Triniaeth deg/cyson
- Annog llai o gyfarfodydd a diogelu oriau cinio / egwyl
- Rheolaeth well ar derfynau amser sy'n gwrthdaro / afrealistig / afresymol sy'n creu pwyntiau pwysau uchel
- Cymryd agwedd llai hierarchaidd drwy ganiatáu i bobl gymryd risgiau wedi'u rheoli a gwneud penderfyniadau.
- Caniatewch nifer o ddiwrnodau iechyd meddwl i weithwyr yn ystod y flwyddyn

Cafwyd ymatebion cadarnhaol hefyd gan gynnwys:

"Dyma un o'r lleoedd mwyaf cynhwysol i mi weithio ynddo erioed, o bell ffordd. Mae'n awyrgylch mor hyfryd, ac mae staff y Senedd wir yn poeni am lesiant ei gilydd."

"Allwn i ddim teimlo fy mod yn cael mwy o gefnogaeth. Mae'n lle mor wych i weithio. Dydw i ddim yn meddwl bod pobl yma yn sylweddoli pa mor dda mae pethau yma o gymharu â gweithleoedd eraill."

Am y tro cyntaf yn yr arolwg llesiant, fe wnaethom ni ddefnyddio Graddfeydd Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh, sef graddfa a ddefnyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i fesur llesiant meddwl. Wrth symud ymlaen, bydd hyn yn ein galluogi i feincnodi llesiant meddwl ein staff, yn ogystal ag asesu effeithiolrwydd ymyriadau. Cwblhaodd 250 o bobl yr adran hon:




Yn erbyn y gwahanol ddangosyddion ar y raddfa, fel grŵp, fe wnaeth yr ymatebwyr roi'r sgôr isaf i'r dangosydd o ran teimlo'n ymlaciedig. Dylid nodi bod gan 24 o bobl sgôr sy'n arwydd o salwch meddwl tebygol. Dywedwyd wrth yr ymatebwyr, pe byddent yn cael sgôr o <20 wrth gwblhau'r arolwg, efallai y byddant am geisio cymorth gan y tîm Iechyd Galwedigaethol neu'r tîm Llesiant.

---

Mae **94 y cant** yn teimlo bod eu rheolwr llinell yn cyfathrebu'n dda ac maen nhw'n deall beth sy'n bwysig a beth i ganolbwyntio arno

Byddai **91 y cant** yn siarad â'u rheolwr pe bai gwaith yn achosi straen neu orbryder iddynt

---

Dadansoddiad

- Ceir gwelliant cadarnhaol cyffredinol o ran nifer yr ymatebwyr sy'n dweud bod y llwyth gwaith yn rhy uchel - ac mae wedi gostwng 5 y cant o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd. Fodd bynnag, dyma'r ffactor uchaf o hyd sy'n cyfrannu at straen cysylltiedig â gwaith, ochr yn ochr â gofynion/terfynau amser munud olaf
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymatebwyr a ddywedodd fod gweithio dyletswyddau ychwanegol / cyflenwi ar gyfer eraill yn cyfrannu at straen cysylltiedig â gwaith, a dangosir hyn ymhellach yn yr ymatebion testun rhydd lle mae nifer o sylwadau am yr angen am adnoddau ychwanegol a rheoli swyddi gwag yn well
- O'i gymharu â chyfartaledd y DU, mae gan y Comisiwn ychydig yn fwy o bobl ag iechyd meddwl gwael, ac ychydig yn llai o bobl ag iechyd meddwl da, ond tua'r un gynrychiolaeth o bobl ag iechyd meddwl cymedrol.
- Mae'r ymatebwyr yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch cyfathrebu gan reolwyr a'r gallu i siarad â rheolwyr os ydynt dan bwysau, ond cafwyd nifer o sylwadau ynghylch yr angen am fwy o hyfforddiant rheoli
- Nid yw'n syndod bod cydberthynas weddol glir rhwng y sgôr y mae staff yn ei roi i'w hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol, wrth gymharu'r canlyniadau ar draws arolygon blaenorol, yn ogystal â chydberthynas rhwng gorbryder/straen gysylltiedig â gwaith a llwyth gwaith. Cafodd cyfraddau absenoldeb salwch iechyd meddwl eu chwyddo'n artiffisial o ganlyniad i'r pandemig, ac maent bellach wedi gostwng ac ar yr un cyfraddau ag oeddent cyn y pandemig

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Judith Paget - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Steve Ham - Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

23 Mawrth 2023

Annwyl gyfeillion,

Cefais ohebiaeth sy'n nodi pryderon am y newidiadau arfaethedig i wasanaethau canser Felindre a datblygiad Canolfan Ganser Felindre newydd. Mae'r materion a godwyd yn cyffwrdd â'r model clinigol cyffredinol a'r achos dros y Ganolfan newydd sydd, mi wn, wedi cael ei drafod mewn man arall, yn ogystal â'r amserlen a'r costau diweddaraf. Fodd bynnag, mae a wnelo'r materion hyn hefyd â chysylltiad posibl â chontract Model Buddsoddi Cydfuddiannol y cwmni Kajima, o ystyried materion cyfreitha yn Lloegr a'r sôn am achos troseddol yn erbyn swyddogion gweithredol cwmnïau tramor mewn perthynas ag arferion ceisiadau. Yn yr un modd, mae cwmni o'r enw Sacyr, sydd hefyd yn rhan o'r cynigydd a ffafrir gan Ymddiriedolaeth Felindre, sef consortiwm 'Acorn, ar gyfer contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd Felindre wedi cael ei ddirwyo am rigio ceisiadau.

O ystyried cylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, rwyf yn ceisio rhagor o wybodaeth a sicrwydd, a gofynnaf ichi ddarparu'r canlynol:

- Cadarnhad o statws presennol y trefniadau cytundebol ar gyfer y prif gontract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, ac unrhyw gontractau cysylltiedig eraill.

- Manylion y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd ar wahanol gamau yn y broses gaffael ar gyfer y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, gan gynnwys sut y mae/a yw'r pryderon ynghylch Kajima a nodwyd uchod wedi ymddangos yn y broses honno, unrhyw sicrwydd ychwanegol a geisiwyd o ganlyniad, neu unrhyw fesurau diogelu perthnasol sy'n cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau contractio.

- Dadansoddiad o gostau'r prosiect i ddatblygu'r Ganolfan newydd hyd yma, ac amcangyfrif o gostau oes y prosiect, gan gynnwys y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Byddem hefyd yn gofyn am unrhyw gymhariaeth y gellir ei darparu ag amcangyfrifon yn gynharach yng nghylch oes y prosiect ar bwyntiau penderfynu allweddol (e.e. cymeradwyo achos busnes llawn), ac esboniad o'r prif resymau dros unrhyw gynnydd mewn costau.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Manylion yr amserlen bresennol ar gyfer cwblhau cam adeiladu'r prosiect ac agor y Ganolfan newydd, eto o'u gymharu ag amcangyfrifon ar adegau allweddol yn gynharach yng nghylch oes y prosiect.

- Cadarnhad, cyn y cytunir ar y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a yw Llywodraeth Cymru a/neu'r Ymddiriedolaeth wedi ailasesu mewn unrhyw ffordd yr achos busnes cyffredinol ar gyfer y prosiect, o ystyried effaith pwysau chwyddiant neu ffactorau eraill, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn fodlon bod y cynlluniau ar gyfer y Ganolfan newydd yn rhoi'r gwerth gorau am arian ac ateb clinigol cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy (dros oes y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r tu hwnt).

Rwy'n cydnabod y gallai fod sensitifrwydd masnachol o ran ymateb i rai o'r materion hyn, ond gofynnwn ichi drafod problemau ymdrin â'r materion hyn â'r tîm clercio wrth geisio ymateb mor llawn â phosibl.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Copïau at: Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Mark Isherwood AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

17 Mai 2023

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Cwestiynau am Ganolfan Ganser newydd Felindre**

Diolch am eith llythyr dyddiedig 23 Mawrth.

1. **Trefniadau Llywodraethu**

1.1 Cyn mynd ati i ystyried yr atebion i'r cwestiynau a gyflwynwyd, roeddem am roi ichi drosolwg o'r trefniadau llywodraethu strategol a gweithredol cadarn sy'n gysylltiedig â datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre. Rydym yn gobeithio y bydd y cyd-destun hwn yn ategu'r atebion uniongyrchol i'ch cwestiynau penodol.

1.2 Mae trefniadau llywodraethu'r prosiect yn gweithio ar dair lefel:

- Llywodraeth Cymru (Strategaeth a Pholisi)
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Corfforaethol)
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Gweithredol / Prosiect)


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0251182
Judith.Paget001@gov.cymru

Gwefan ● website: www.gov.wales

## 2. ***Llywodraeth Cymru (Strategaeth a Pholisi)***

Isod, ceir tabl sy'n dangos strwythurau Llywodraeth Cymru a'r ffordd y maent yn gweithredu.

| Grŵp/Bwrdd | Trosolwg |
|---|---|
| **Bwrdd Strategol Iechyd Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer Felindre** | Cyfarfod misol sy'n cael ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, gyda phresenoldeb Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a’r Cyfarwyddwr Prosiect ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a Gwaith Galluogi. Nod y cyfarfod yw cefnogi'r gwaith o reoli prosesau’r model buddsoddi cydfuddiannol, rhoi diweddariadau ar gynnydd, herio'r gwaith o gyflawni'r prosiect, trafod y rhesymeg dros achosion o randdirymu polisïau’r model buddsoddi cydfuddiannol a darparu pwynt uwchgyfeirio. |
| **Craffu ar Achosion Busnes gan Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru** | Mae tîm amlddisgyblaethol o swyddogion Llywodraeth Cymru a chynghorwyr allanol yn craffu ar achosion busnes, gan gynnwys o safbwynt clinigol, y gweithlu, polisïau, cynllunio, cyllid, ynghyd ag economegwyr a gweithwyr proffesiynol yn y maes ystadau er mwyn ystyried yr achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli ar gyfer y cynnig gwariant yn erbyn yr amcanion a'r meini prawf buddsoddi. Caiff eu hadborth a'u hargymhellion eu bwydo i’r Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith. |
| **Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith Llywodraeth Cymru** | Cylch gwaith y Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith yw sicrhau bod pob buddsoddiad yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y GIG a'i amcanion buddsoddi mewn seilwaith, ac yn bodloni'r meini prawf buddsoddi a bennwyd. Yn amodol ar gefnogaeth y Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith, caiff cyngor ac argymhellion ffurfiol eu cyflwyno i'r Gweinidog perthnasol fel y disgrifir uchod. |
| **Gweinidogion Cymru** | Mae llif y model buddsoddi cydfuddiannol a phrosiectau cysylltiedig yn rhychwantu dwy adran o’r Llywodraeth, sef y Trysorlys ac Iechyd. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am roi’r sêl bendith terfynol i gynllun Canolfan Ganser newydd Felindre, gan awdurdodi Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i fwrw ymlaen i'r cam caffael. Mae fframwaith sicrwydd model buddsoddi cydfuddiannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys pwyntiau cymeradwyo masnachol sydd, ar wahanol adegau hyd yma, wedi ystyried effaith y ffactorau masnachol sy'n benodol i'r prosiect mewn perthynas â'r canlynol:<br><br>• Fforddiadwyedd;<br>• Gwerth am Arian;<br>• Cyflawnadwyedd;<br>• Agweddau masnachol ar brosiect a’r rhai sy'n ymwneud â chydymffurfio. |

## 3. ***Sicrwydd Allanol Ychwanegol***

### *3.1 Y broses Adolygiad Porth neu Adolygu Sicrwydd Prosiect*

Mae'r gwaith o ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre yn ddarostyngedig i'r broses

Adolygiad Porth ac Adolygu Sicrwydd Prosiect, sy'n rhan safonol o'r broses achos busnes sy'n ofynnol gan Drysorlys Cymru a Thrysorlys y DU ar gyfer unrhyw brosiect seilwaith mawr. Mae proses Adolygu Porth yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn edrych ar brosiectau ar bwyntiau penderfynu allweddol yn eu cylch oes. Fel rhan o'r broses hon, mae tîm o arbenigwyr annibynnol yn asesu pa mor hyderus ydynt y caiff prosiect neu raglen ei gyflawni neu ei chyflawni.

### *3.2 Cymeradwyo achosion busnes*

Dilynwyd canllawiau Model Pump Achos Llywodraeth Cymru wrth lunio'r achosion busnes perthnasol ar gyfer prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. Cafodd y gwaith hwn ei gynnwys yn y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn 2015; yn achos busnes y rhaglen a luniwyd yn 2017.

Mae nifer o brosesau achos busnes sy'n rhan o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser:

- Cafodd yr achos busnes llawn ar gyfer y prosiect Gwaith Galluogi ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2022. Mae'r rhan hon o'r rhaglen yn ymwneud â pharatoi'r safle ac adeiladu'r ffyrdd a'r pontydd sydd eu hangen. Dechreuodd y gwaith ym mis Chwefror 2022 ac mae bron wedi dod i ben.
- Cafodd yr achos busnes llawn ar gyfer y Ganolfan Lloeren Radiotherapi ei gymeradwyo ym mis Medi 2022. Diben y prosiect hwn yw adeiladu canolfan yn y Fenni er mwyn gwella mynediad at ofal canser trydyddol yn yr ardal. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.
- Cafodd yr achos busnes llawn ar gyfer y Datrysiad Radiotherapi Integredig ei gymeradwyo ym mis Medi 2022. Diben y prosiect hwn yw darparu deg cyflymydd llinellol, wyth yng Nghanolfan Ganser Felindre newydd a dau yn y Ganolfan Lloeren Radiotherapi yn y Fenni. Yn dilyn proses gaffael gadarn mae'r contract wedi ei ddyfarnu ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar weithredu ar gyfer y ddau safle.
- Cafodd yr achos busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2021. Dewiswyd consortiwm Acorn fel y cyfranogwr llwyddiannus yn y ddeialog gystadleuol i gynllunio, adeiladu, cyllido a chynnal a chadw Canolfan Ganser newydd Felindre ym mis Gorffennaf 2022, yn dilyn cystadleuaeth gadarn a barodd am naw mis. Ar ôl i gyfnod cystadlu'r broses gaffael ddod i ben, aeth yr Ymddiriedolaeth ymlaen i'r cam "Cyfranogwr Llwyddiannus i Gwblhau'r Agweddau Ariannol" sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Caiff yr achos busnes llawn ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo yn unol â'r cam cwblhau'r agweddau ariannol â chonsortiwm Acorn.
- Mae achos busnes Canolfan Ganser newydd Felindre yn rhoi pwyslais arbennig ar y buddion i'r gymuned yn ehangach, gan gynnwys:

    - Recriwtio a hyfforddi pobl ddi-waith a phobl sy'n economaidd anweithgar.
    - Prentisiaethau newydd, yn arbennig i bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), pobl sy'n ddi-waith yn hirdymor a gweithwyr dan anfantais
    - Mentrau cadwyn gyflenwi i fusnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol
    - Lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd
    - Mentrau addysgol: ymgysylltu, pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg

a mathemateg (STEM), a gweithdai gyrfa
- Ymgysylltu â'r trydydd sector
- Mentrau cymunedol, i gefnogi ymgysylltu â'r gymuned, adfywio, y Gymraeg a diwylliant Cymru a chydlyniant cymunedol

Mae'r gwaith o ddatblygu pob un o'r achosion busnes wedi bod yn destun prosesau craffu a sicrwydd o fewn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre; adolygiadau allanol (adolygiadau Porth ac adolygiadau pwynt cymeradwyo masnachol, lle y bo'n briodol); gwaith craffu gan Fyrddau Iechyd Prifysgol sy'n comisiynu a gwaith craffu gan Fwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith Llywodraeth Cymru cyn i Weinidogion Cymru eu hystyried.

4. **<u>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Corfforaethol) – ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Gweithredol / Prosiect)</u>**

Gwneir y gwaith craffu mewnol canlynol ar yr holl waith sy'n gysylltiedig â datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre:

| Grŵp/Bwrdd | Trosolwg |
|---|---|
| **Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre** | Rôl Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yw:<br><br>Gosod cyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth.<br>Pennu a chynnal fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys gwerthoedd a safonau ymddygiad.<br>Sicrhau y caiff nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth eu cyflawni drwy herio perfformiad yn effeithiol a chraffu arno.<br><br>Corff corfforedig sy'n gwneud penderfyniadau yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n cadw'r hawl i gymeradwyo unrhyw ymrwymiadau ariannol sy'n fwy na therfyn ariannol y Prif Weithredwr (sef £100k ar hyn o bryd). Mae'r Bwrdd yn dwyn y Prif Weithredwr (y Prif Berchennog Cyfrifol) i gyfrif am gyflawni prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre.<br><br>Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect Canolfan Ganser newydd Felindre ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiadau yn rhoi cyfle i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth weld y darlun cyflawn o safbwynt sut y mae prosiect y Ganolfan Ganser newydd yn perfformio o ran amser, costau ac ansawdd. Mae hefyd yn rhoi gwybod i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth am gynnydd yn erbyn y cynllun, ac am risgiau a materion sylweddol i'r prosiect, ac yn gofyn i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ystyried cymeradwyo materion sydd y tu hwnt i awdurdod dirprwyedig Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. |
| **Yr Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid** | Caiff Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre sicrwydd gan yr Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser sy'n cynnwys aelodau annibynnol. Mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol, Cyfarwyddwr y Rhaglen, |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau Canser** | Cyfarwyddwr y Prosiect a swyddogion eraill yr Ymddiriedolaeth hefyd yn bresennol yn yr is-bwyllgor. Mae’r Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. |
| **Y Bwrdd Cyfalaf Strategol (yn cymryd lle Bwrdd Cyflawni’r Rhaglen)** | Mae'r Bwrdd Cyfalaf Strategol yn gyfrifol am arwain a chydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhaglenni seilwaith yr Ymddiriedolaeth.<br><br>Bydd awdurdod cymeradwyo yn cael ei ddirprwyo i’r Bwrdd Cyfalaf Strategol (pan fydd yn berthnasol) ar ran Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. |
| **Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre a Gwaith Galluogi** | Mae Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn fwrdd sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae ganddo'r dirprwyaethau perthnasol (wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth) i reoli'r gwaith o gyflawni prosiect y Ganolfan Ganser newydd. Caiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Prosiect. Mae Bwrdd Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn goruchwylio'r prosesau cynllunio, caffael, adeiladu a chomisiynu ar gyfer y Ganolfan Ganser newydd. |

5. **<u>Archwilio Mewnol</u>**

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i Felindre. Mae prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn rhan annatod o gylch archwilio blynyddol yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i'w arwyddocâd i'r sefydliad. Mae llif cyson o adolygiadau archwilio mewnol o'r prosiect ac mae’r cynrychiolydd archwilio mewnol yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Prosiect Gwaith Galluogi/Canolfan Ganser newydd Felindre. Ers dechrau 2022, mae pum adolygiad archwilio mewnol wedi cael eu cynnal hyd yma. Aseswyd bod sicrwydd sylweddol (gwyrdd) ynghylch tri o’r rhain, sicrwydd rhesymol (melyn) ynghylch un ohonynt a sicrwydd cyfyngedig (ambr) ynghylch un arall.

Cafodd y prosiectau Gwaith Galluogi a Chanolfan Ganser newydd Felindre eu rheoli ar wahân am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith bod modelau cyllido gwahanol wedi cael eu datblygu ar eu cyfer. Mae'r byrddau prosiect yn cyfarfod yn fisol i adolygu cynnydd, risgiau a buddion. Ystyrir bod y prosiect yn rhan o raglen ehangach Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

6. **Cwestiynau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

1. ***Cadarnhad o statws y trefniadau cytundebol ar gyfer y prif gontract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, ac unrhyw gontractau cysylltiedig eraill.***

1.1 Mae nifer o achosion busnes sy'n gysylltiedig â datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre. Fel y nodwyd uchod yng nghyd-destun y fframwaith sicrwydd, yr achosion busnes hyn yw:

- Achos busnes llawn y prosiect Gwaith Galluogi, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2022.

- Achos busnes llawn y Ganolfan Lloeren Radiotherapi, a gymeradwywyd ym mis Medi 2022.
- Achos busnes llawn y Dull Radiotherapi Integredig, a gymeradwywyd ym mis Medi 2022.
- Yr achos busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2021. Caiff yr achos busnes llawn ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo yn unol â'r cam cwblhau'r agweddau ariannol gyda chonsortiwm Acorn.

1.2 Mae tîm consortiwm Acorn yn cynnwys Kajima Partnerships, Sacyr, Abrdn, Andrew Scott, Kier Facilities Services, White Arkitekter, Arup, MJ Medical, Turley, Studio Response, Camlins Landscape Architects, Osborne Clarke, Operis a Confab Lab.

***2. Manylion y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd ar wahanol gamau yn y broses gaffael ar gyfer y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, gan gynnwys sut y mae/a yw'r pryderon ynghylch Kajima a nodwyd uchod wedi ymddangos yn y broses honno, unrhyw sicrwydd ychwanegol a geisiwyd o ganlyniad, neu unrhyw fesurau diogelu perthnasol sy'n cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau contractio.***

2.1 Mae Felindre wedi cael gwybodaeth, ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth a sicrwydd gan gonsortiwm Acorn, mewn cysylltiad â'r achosion canlynol sy'n parhau i fynd rhagddynt:

a. achos gweinyddol gan Comisón Nacional de los Mercados y la Competencia yn Sbaen a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2022, mewn cysylltiad â chydgynllwynio honedig yn Sbaen, sy'n destun apêl gan Sacyr Construcción S.A ("**Achos Sacyr**"); a

b. achos gweinyddol ac achos troseddol honedig mewn cysylltiad â honiadau o dorri Deddf Wrthfonopoli Japan yn erbyn Kajima Corporation ac un o'i gyflogeion, a glywyd ddiwethaf yn Uchel Lys Apêl Tokyo ddechrau mis Mawrth 2023, ac sy'n destun apêl gan Kajima Corporation a'r cyflogai perthnasol ("**Achosion Kajima**").

Sacyr Construcción S.A yw'r gwarantwr contractwyr adeiladu ar y prosiect.

2.2 Nid yw Kajima Corporation yn rhan uniongyrchol o'r prosiect ond, yn y pen draw, dyma riant-gwmni Kajima Partnerships Limited (Datblygwr/cyfranddaliwr) a Kajima Europe Ltd (Darparwr cymorth ariannol i Kajima Partnership Ltd).

**Y Broses Gaffael**

2.3 Cafodd y broses gaffael ei chynllunio ar y cyd â chynghorwyr cyfreithiol Felindre yn unol â'r arferion gorau, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (y "Rheoliadau Caffael") a chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac roedd yn cydymffurfio â nhw pan gynhaliwyd y broses.

2.4 Cafodd yr holiadur cyn-gymhwyso ar gyfer y prosiect ei lunio gan ddefnyddio ffurflen safonol holiadur cyn-gymhwyso y model buddsoddi cydfuddiannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau'r model buddsoddi cydfuddiannol (wedi ei deilwra i rai agweddau nad ydynt yn orfodol er mwyn adlewyrchu amodau'r farchnad a materion sy'n benodol i'r sector a'r prosiect). Cafodd y seiliau dros eithrio eu cynnwys yn rhan 2 (Y seiliau dros eithrio) o'r holiadur cyn-gymhwyso, yn unol â rheoliad 57 (Y seiliau dros eithrio) o'r Rheoliadau Caffael.

2.5 Mae dwy sail dros eithrio sy'n berthnasol yn benodol i'r achosion, sef y “Sail dros eithrio o’r gystadleuaeth” a’r “Sail euogfarn droseddol”.

2.6 Cafodd yr ymatebion i ran 2 o'r holiadur cyn-gymhwyso eu gwerthuso gan y tîm gwerthuso cyfreithiol. Rhoddodd y gweithredwyr economaidd yng nghonsortiwm Acorn ateb negyddol i'r ddau gwestiwn y cyfeirir atynt uchod, gan basio rhan 2 (Y seiliau dros eithrio) o'r holiadur cyn-gymhwyso. Roedd y dull a ddefnyddiwyd i werthuso'r cwestiynau hyn yn gyson â rheoliad 59 (Dogfen gaffael sengl) o'r Rheoliadau Caffael.

2.7 Rhoddodd Sacyr ymateb negyddol i'r ddau gwestiwn yn yr holiadur cyn-gymhwyso. Roedd hyn yn briodol o ystyried nad oes unrhyw ddyfarniadau terfynol sy’n rhwymo mewn perthynas ag Achos Sacyr. Fodd bynnag, er mwyn trafodion cyflawn a thryloyw ac ar yr un pryd, rhoddodd Acorn wybodaeth bellach ychwanegol yn ei holiadur cyn-gymhwyso i gadarnhau ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i herio’r penderfyniad. Cadarnhawyd y byddai'n cyflwyno'r her hon i Farnwr yr Uchel Lys yn Sbaen cyn y dyddiad cau ym mis Hydref 2022, ar y cyd â chais am fesur rhagofalus (sef y cais interim ar gyfer atal y penderfyniad yn llawn (gan gynnwys talu'r ddirwy)). Cafodd yr wybodaeth hon ei hystyried felly yn ystod y broses ddethol a chafwyd cyngor cyfreithiol a gadarnhaodd fod y safbwynt hwn yn briodol. Cafodd yr her ei chyflwyno wedyn gan Sacyr cyn y dyddiad cau ym mis Hydref 2022.

**Diwydrwydd a Sicrwydd Dilynol a’r Cyd-destun Contractiol**

2.8 Yn ystod y broses gaffael, mae Felindre wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol gan gonsortiwm Acorn am yr achosion hyn. Mae’r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi cael ei darparu.

2.9 I’r graddau ei bod yn briodol a bod cofnodion ar gael, mae’r wybodaeth weithdrefnol a roddwyd gan gonsortiwm Acorn ar Achos Sacyr ac Achosion Kajima wedi cael ei chadarnhau gan gynghorwyr cyfreithiol Felindre drwy wirio’r cofnodion llys perthnasol.

2.10 Mae’r wybodaeth a gadarnhawyd wedi cael ei hystyried gan Felindre a’i gynghorwyr cyfreithiol i asesu a fydd Achos Sacyr neu Achosion Kajima yn cael effaith ar werthuso’r holiadur cyn-gymhwyso. I grynhoi, ar sail yr wybodaeth honno, ac am nad oes unrhyw ddyfarniadau terfynol sy’n rhwymo mewn perthynas ag Achos Sacyr nac Achosion Kajima, canlyniad yr asesiadau hyn yw nad oes unrhyw newid yn yr amgylchiadau ar hyn o bryd a fyddai’n arwain at gonsortiwm Acorn yn methu’r Sail euogfarn droseddol na’r Sail dros eithrio o’r gystadleuaeth gystadlu yn yr holiadur cyn-gymhwyso.

2.11 Pe bai dyfarniadau terfynol sy’n rhwymo mewn perthynas â naill ai Achosion Kajima (yn ymwneud â Kajima Corporation) neu Achos Sacyr, yn erbyn yr endidau perthnasol yn ystod y broses gaffael, byddai’n ofynnol wedyn i gonsortiwm Acorn ddarparu rhagor o wybodaeth i Felindre yn unol â’i rwymedigaethau o dan y dogfennau caffael. Yn y sefyllfa honno, byddai’r Awdurdod yn disgwyl i gonsortiwm Acorn ddarparu’r lefel angenrheidiol o dystiolaeth sy’n ofynnol er mwyn bodloni’r darpariaethau ynghylch *hunanlanhau* o dan reoliadau 57(13) i 57(16), gan ddarparu’r lefel briodol o dystiolaeth o dan reoliad 69 (Dulliau profi). Mae hunanlanhau yn cynnwys camau megis: talu’r iawndal sydd ei angen; cymryd camau technegol, sefydliadol a phersonél pendant sy’n briodol er mwyn atal rhagor o droseddau neu gamymddwyn; a chaiff y camau a gymerir gan y gweithredwr economaidd eu gwerthuso gan ystyried pa mor ddifrifol oedd y drosedd neu’r camymddwyn, a chan ystyried eu hamgylchiadau penodol.

2.12 Er gwaethaf y ffaith na chafwyd unrhyw ganfyddiad terfynol o wyrdroi cystadleuaeth, byddai Felindre yn mynd ar drywydd rhagor o sicrwydd drwy wirio gwybodaeth mewn modd tebyg i hunanlanhau ar yr adeg hon. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi ar hyn o bryd gyda chonsortiwm Acorn, a chaiff ei chwblhau cyn y cam Cwblhau'r Agweddau Ariannol. Bydd yr asesiad o'r wybodaeth hunanlanhau yn adlewyrchu'r hyn a fyddai wedi bod yn ofynnol o dan reoliadau 57(13)-57(16), yn ogystal â'r fethodoleg werthuso a nodwyd yn y ddogfen ddisgrifiadol ar gyfer y prosiect, pan oedd penderfyniad terfynol anffafriol wedi cael ei wneud mewn cysylltiad ag Achos Sacyr a/neu Achosion Kajima (sy'n berthnasol i Kajima Corporation) yn ystod y broses gaffael.

3. ***Dadansoddiad o gostau'r prosiect i ddatblygu'r Ganolfan newydd hyd yma, ac amcangyfrif o gostau oes y prosiect, gan gynnwys y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Byddem hefyd yn gofyn am unrhyw gymhariaeth y gellir ei darparu ag amcangyfrifon yn gynharach yng nghylch oes y prosiect ar bwyntiau penderfynu allweddol (e.e. cymeradwyo achos busnes llawn), ac esboniad o'r prif resymau dros unrhyw gynnydd mewn costau.***

3.1 Cyfanswm costau'r prosiect i ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre ei hun hyd yma (o 2014 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023) yw £16.3 miliwn. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau rheoli prosiect, agweddau cyfreithiol, dylunio, cynllunio a phob math o gyngor arbenigol arall ers 2014.

Mae'r tabl isod yn dangos y costau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn gyffredinol ers 2014:

| Ffrwd waith | Cost hyd yma ym mis Mawrth 2023 |
|---|---|
| Canolfan Ganser newydd Felindre a'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn ehangach | £18.874m |
| Gwaith Galluogi | £19.99m |
| Dull Radiotherapi Integredig | £9.01m |

3.2 Mae'r achos busnes llawn wrthi'n cael ei lunio, ond un pwynt cyfeirio perthnasol yw'r gyllideb y cytunwyd arni yn haf 2022 ar ddiwedd proses y ddeialog gystadleuol. Taliad gwasanaeth blynyddol ar gyfer y model buddsoddi cydfuddiannol oedd hyn, gwerth tua £29m, gan gynnwys costau cynnal a chadw am 25 mlynedd, costau amnewid ar ddiwedd cylch oes am 25 mlynedd, cost gyfalaf lawn yr adeilad a'r holl gostau benthyg. Byddai'r gyllideb hon yn dibynnu ar newidiadau mewn chwyddiant ac yn y gyfradd sylfaenol. Byddai angen i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu hadlewyrchu yn y cam Cyfranogwr Llwyddiannus i Gwblhau'r Agweddau Ariannol o broses gaffael y model buddsoddi cydfuddiannol.

4. ***Manylion yr amserlen bresennol ar gyfer cwblhau cam adeiladu'r prosiect ac agor y Ganolfan newydd, eto o'u cymharu ag amcangyfrifon ar adegau allweddol yn gynharach yng nghylch oes y prosiect.***


4.1 Y nod yn y gorffennol oedd trin y claf cyntaf yn ystod Chwarter 2 o 2025/26 a bod yn gwbl weithredol ar ôl cyfnod pontio yn Chwarter 3 2025/26. Pan fydd yr achos busnes llawn yn derfynol, bydd yn cadarnhau'r rhaglen adeiladu ac yn diweddaru'r dyddiadau targed hyn pan fydd yr holl agweddau masnachol wedi cael eu cwblhau.

5. ***Cadarnhad, cyn y cytunir ar y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a yw Llywodraeth Cymru a/neu'r Ymddiriedolaeth wedi ailasesu mewn unrhyw ffordd yr***

***achos busnes cyffredinol ar gyfer y prosiect, o ystyried effaith pwysau chwyddiant neu ffactorau eraill, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn fodlon bod y cynlluniau ar gyfer y Ganolfan newydd yn rhoi'r gwerth gorau am arian ac ateb clinigol cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy (dros oes y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r tu hwnt).***

5.1 Gallwn gadarnhau bod y gwaith o gwblhau’r cam Cwblhau’r Agweddau Ariannol o’r contract ag Acorn yn mynd rhagddo. Mae unrhyw wybodaeth bellach o ran manylion y contract yn sensitif yn fasnachol ac felly ni ellir ei rhyddhau ar hyn o bryd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae’r holl brosiectau seilwaith mawr a’u costau cyfalaf a benthyg cysylltiedig yn dibynnu ar newidiadau yn yr economi a’r marchnadoedd byd-eang, ac ar effeithiau’r newidiadau hyn ar gyfradd chwyddiant y DU wedyn. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod yr achos busnes llawn, a gaiff ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys y Cymharydd Sector Cyhoeddus, sef yr adnodd rheoli allweddol yn y broses o asesu faint o werth am arian y mae prosiectau seilwaith y sector cyhoeddus yn ei gynnig.

Yn gywir





**Judith Paget CBE**

**Steve Ham**

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA/JH/1463/23
Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd CF99 1SN

06 Mehefin 2023

Annwyl Mark,

Ar ôl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) *Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yn hyn* ym mis Mawrth 2021 fe wnaethoch ysgrifennu ataf ym mis Rhagfyr 2021 yn gofyn am ddiweddariadau chwe misol ar gynnydd Llywodraeth Cymru wrth roi argymhellion yr adroddiad ar waith. Yn fy llythyr atoch ar 10 Ionawr 2022, ymrwymais i roi diweddariadau ym mis Mehefin a mis Rhagfyr 2022. Anfonwyd y diweddariadau hyn atoch chi ar 25 Mai a 1 Rhagfyr 2022.

Rwyf o'r farn bod pob un o'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi cael sylw ac wedi'u cwblhau, ac felly rwy'n bwriadu defnyddio ein hadroddiad cynnydd blynyddol ar y Cynllun Dysgu a Gwella'n Barhaus ar gyfer 2023-2025 a gyhoeddwyd yn ddiweddar i barhau i roi gwybod am y cynnydd rydyn ni'n ei wneud i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cynllun yn cyfuno dros 50 o gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella dealltwriaeth a dulliau o ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd y mae'r sefydliad yn gweithio, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio ein prosesau cyllidebol, trefniadau byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a'n cerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol i wneud hyn. Mae'r Cynllun hefyd yn gweithredu fel yr ymateb o sylwedd gan Lywodraeth Cymru i'r argymhelliad yn adroddiad adolygu adran 20 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022.

Byddaf yn sicrhau eich bod yn cael copïau o'r adroddiadau cynnydd blynyddol pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Yn gywir,

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**
Copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Education, Social Justice and Welsh Language Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Rd
Cardiff
CF11 9LJ

21 November 2022

Dear Adrian

Thank you for your recent report which looks at the challenge of poverty in Wales and how government is responding. We welcome the recognition within the report of the scale and complexity of the challenge that we and local authorities face in tackling and alleviating poverty in Wales and that many of the key levers to alleviate poverty are outside of Wales's control. We would agree therefore that it is only through working together that we will be able to make any impact on levels of poverty in Wales. We would offer the following response to the 8 recommendations within your report. We have accepted Recommendations 1 and 4. We have noted the other six recommendations which are for Councils in Wales.

**National strategy and targets for tackling and alleviating poverty**

**Recommendation 1 - We recommend that in updating its (Child Poverty) strategy the Welsh Government:**

- **set SMART national actions;**
- **establish a suite of performance measures to judge delivery and impact;**
- **sets target for alleviating and tackling poverty; and**
- **undertake regular evaluation of performance and public reporting.**

**Accept**

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 serves to put into law the requirement for public bodies to pursue the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales. The Act made Wales the first country in the world to legislate for the well-being of current and future generations.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn • Tel 03000 628078
Jo-anne.Daniels@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

In order to understand the progress that is being made towards the realisation of the Act, the Welsh Government introduced 46 National Indicators in 2016. These National Indicators are updated regularly as more data becomes available.

In collaboration with a range of stakeholders, the Welsh Government set out to develop National Milestones that would measure progress towards the National Indicators. These National Milestones are being developed in collaboration with the public, third and private sector organisations, and public bodies across Wales. The Welsh Government aims to co-produce National Milestones that are achievable and help Wales progress towards the well-being goals set out in the Act.

As part of this process, the Welsh Government launched a consultation entitled 'Shaping Wales' Future' in September 2021. A broad range of stakeholders were invited to respond to the proposals and express their views. This feedback was then considered by the Welsh Government Cabinet office before the proposed Milestones and Indicators were laid before the Senedd in December 2021.

Following on from this consultation Welsh Government has sought to develop a second set of National Milestones. They put the proposals forward for public consultation in June 2022. Stakeholders were invited for their views, including in providing feedback on the proposals. The consultation included an income poverty milestone (Indicator 18) – to reduce the poverty gap between people in Wales with certain key and protected characteristics (which mean they are most likely to be in poverty) and those without those characteristics by 2035.

As part of the consultation on the refreshed Child Poverty Strategy, stakeholders will be asked to consider the requirement for further poverty targets or performance measures taking into account the national milestones. The Children and Families (Wales) Measure 2010 requires the Welsh Government to conduct a tri annual review of the extent to which it has achieved, or the progress towards achieving, the objectives within the Child Poverty Strategy.

**Local strategies, targets and performance reporting for tackling and alleviating poverty**

**Recommendation 2 - We recommend that the councils use their Wellbeing Plans to provide a comprehensive focus on tackling poverty to co-ordinate their efforts, meet local needs and support the revised national plan targets and actions. This should:**

- **include SMART local actions with a greater emphasis on prevention;**
- **include a detailed resourcing plan for the length of the strategy;**
- **be developed with involvement from other public sector partners, the third sector, and those with experience of poverty;**
- **include a robust set of consistent outcome indicators and measures to increase understanding of poverty locally; and**
- **be subject to annual public reporting to enable a whole system view of poverty locally to help improve delivery and support.**

The Welsh Government has noted the report's findings and its recommendations for Councils in Wales.

**Leadership on the poverty agenda**

**Recommendation 3 - Given the importance of effective leadership in driving the poverty agenda forward and breaking silos within councils and between public**

**bodies, we recommend that each council designate a cabinet member as the council's poverty champion and designate a senior officer to lead and be accountable for the anti-poverty agenda.**

The Welsh Government has noted the report's findings and its recommendations for Councils in Wales.

**<u>Improve the efficiency and effectiveness of grant-funded programmes</u>**

**Recommendation 4 - To ensure councils are able to maximise the impact of funding and tackle the more difficult and longstanding problems, we recommend that the Welsh Government:**

- **provide longer timescales for announcing and receiving bids to enable better resource planning;**
- **move away from annual bidding cycles to multi-year allocations;**
- **enable funding to be more flexibly spent to avoid an emphasis on quicker projects, rather than more impactful interventions that take longer to establish;**
- **allow councils to consolidate funding to reduce bureaucracy;**
- **streamline and simplify processes and grant conditions to reduce the administrative burden; and**
- **keep requests for information and supporting materials from councils to a minimum.**

**Accept.**

Welsh Government provides significant funding for delivery by local authorities through specific grants some of which are allocated by formula and some operated on the basis of bids for specific projects or activities. Where funding streams are introduced on the basis of competitive bids we agree that where possible reasonable periods of time should be allowed for the development of proposals as well as for the assessment of bids and subsequent delivery of successful proposals. Sometimes funding will become available to Welsh Government relatively late and timescales will be shorter than is ideal.

The Government is keen to offer local government partners longer certainty. The three year budget for Welsh Government under the last spending review offered us the opportunity to do so and accordingly the publication of the 2022-2023 unhypothecated Settlement set out indicative funding for succeeding years for both the Settlement and for specific grants where known. The UK Government's fiscal statement on 17 November however will require a reconsideration of the Welsh Government's budget including the certainty we had sought to provide to others.

The design of grant programmes should focus on outcomes and meet the requirements of the Wellbeing of Future Generations Act. There is work underway as part of the Programme for Government commitment to work with local government to reduce the administrative burden on local authorities and this will include consideration of the approach to grant funding processes and the balance of accountability and administrative overhead.

The Welsh Government Grant Centre of Excellence, working with Ministers and Grant Managers, recently introduced a new "longer duration of funding and benchmarking process" which helps provide Grant Managers with different options to improve their grant processes (for hypothecated grants). This includes:

- a move away from annual or short-term grants being re-competed each year (where appropriate), with a longer duration of funding approach introduced.
- an option to establish a 'benchmarking' exercise at the end of a competitive grant scheme to determine whether organisations receive additional funding, and allow longer duration of funding / multi-year funding.

These improvements also tackle head-on many of the issues you raise and can help maximise impact of (hypothecated grant) funding to Local Authorities and bring about tangible, lasting benefits to individuals and communities in Wales, when it is most needed.

**Experience mapping to create inclusive services for people in poverty**

**Recommendation 5 – We recommend that councils improve their understanding of their residents' 'lived experience' through meaningful involvement in decision-making using 'experience mapping' and/or 'Poverty Truth Commissions' to review and improve accessibility to and use of council services.**

The Welsh Government has noted the report's findings and its recommendations for Councils in Wales.

**Single web landing page for people seeking help**

**Recommendation 6 - To ensure people are able to get the information and advice they need, we recommend that councils optimise their digital services by creating a single landing page on their website that:**

- **is directly accessible on the home page;**
- **provides links to all services provided by the council that relate to poverty; and**
- **provides information on the work of partners that can assist people in poverty.**

The Welsh Government has noted the report's findings and its recommendations for Councils in Wales.

**Streamlining and improving application and information services for people in poverty**

**Recommendation 7 – We recommend that councils:**

- **establish corporate data standards and coding that all services use for their core data;**
- **undertake an audit to determine what data is held by services and identify any duplicated records and information requests;**
- **create a central integrated customer account as a gateway to services;**
- **undertake a data audit to provide refresher training to service managers to ensure they know when and what data they can and cannot share; and**
- **review and update data sharing protocols to ensure they support services to deliver their data sharing responsibilities.**

The Welsh Government has noted the report's findings and its recommendations for Councils in Wales.

**Complying with the socio-economic duty**

**Recommendation 8 - We recommend that councils review their integrated impact assessments or equivalent to:**

- **ensure that they draw on relevant, comprehensive and current data (nothing over 12 months old) to support analysis;**
- **ensure integrated impact assessments capture information on:**
  - **involvement activity setting out those the service has engaged with in determining its strategic policy such as partners, service users and those it is co-producing with;**
  - **the cumulative impact/mitigation to ensure the assessment considers issues in the round and how it links across services provided across the council;**
  - **how the council will monitor and evaluate impact and will take corrective action; and**
  - **an action plan setting out the activities the Council will take as a result of the Integrated Impact Assessment**

The Welsh Government has noted the report’s findings and its recommendations for Councils in Wales.

Kind regards,



**Jo-Anne Daniels**

Director General
Education, Social Justice & Welsh Language

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon